

Tips defnyddiol

ar gyfer magu plant cadarnhaol



(addas o 8-18)

Mae magu plant yn gadarnhaol (neu yn awdurdodol) yn ddull o fagu plant sy'n annog rhieni i ganolbwyntio ar y cadarnhaol – yr hyn y mae plentyn yn ei wneud yn iawn, a'i gryfderau. Mae'n seiliedig ar ymddygiad cynnes, parchus a chadarnhaol. Dylai plant fod â pherthynas gariadus gyda'u rhieni ynghyd â goruchwyliaeth, strwythur a ffiniau priodol i oedran, sy'n rhoi cyfle iddynt ffynnu a byw bywydau hapus ac iach.

- Rhowch ganmoliaeth gynnes am ymddygiad da.
- Gosodwch reolau teuluol clir sy'n addas ar gyfer oedran a gallu eich plentyn neu berson ifanc.
- Ceisiwch feddwl am beth sy'n digwydd o dan wyneb ymddygiad anodd – a yw eich plentyn neu berson ifanc yn llwglyd, dig, unig neu flinedig?
- Datblygwch drefn sy'n gweithio i'ch teulu.
- Byddwch yn esiampl o'r ymddygiad rydych eisiau ei weld – ni fydd plentyn neu berson ifanc yn deall nad oes hawl taro neu weiddi os mai dyna maen nhw'n gweld oedolion yn ei wneud.



**A chofiwch eich bod yn gwneud
y gorau y gallwch chi.**



Am fwy o wybodaeth a
chyngor ar fagu plant ewch i:
 llyw.cymru/rhowchamseriddo



Magu plant.
Rhowch amser iddo.

Parenting.
Give it time.

 @parentsinwales
 @parenting.wales